**COFNODION O GYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANRUG AR 17 CHWEFROR 2026, AM 7:00 Y.H.**

**PRESENNOL:** Y Cynghorwyr Rhys Parry (Cadeirydd), Avril Jones, Cemlyn Jones, Richard Robinson, Colin Swatridge, Gwynedd Williams, Philip Roberts, Hefin Jones, Berwyn Parry Jones, Beca Brown.

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Ann Lawton

**CYFIEITHYDD**: Ann Llwyd, Lingo Cyf

**CLERC:** Meirion Jones

**1558. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod a talwyd teyrnged i'r diweddar Gynghorydd Alan Pritchard sydd wedi pasio heibio yn yr wythnos ddiwethaf. Cydnabuwyd ei gyfraniad i'r cyngor hwn ac y ardal Cwm y Glo.

**1559 . Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriad fel a nodwyd uchod

**1560. Datgan buddiant.**

Rhain i'w datgan fel yn briodol.

Eitem 1568 – mae'r isod wedi datgan buddiant personol sydd yn rhagfarnllyd ac fe adawyd y cyfarfod a ni chymerwyd rhan yn y drafodaeth na'r penderfyniad

Cynghorydd Rhys Parry (Cadeirydd)
Cynghorydd Avril Jones (Is-gadeirydd)
Cynghorydd Berwyn Parry Jones (Uwch Rôl)
Cynghorydd Philip Roberts (Uwch Rôl)

**1561. I dderbyn cofnodion cyfarfod 20 Ionawr 2026**

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**1562. Unrhyw fater yn codi o'r cofnodion**

Dim

**1563. I ystyried cais am ad-leoli bin halen ger Parciau Gleision (Cyng Berwyn Parry Jones)**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones ei fod wedi derbyn cais am ad-leoli bin halen. Eglurodd na fyddai Cyngor Gwynedd yn darparu biniau halen o'r newydd ond os byddai'r cyngor cymuned yn gofyn, bydd yn bosib eu ad-leoli.

Adroddwyd fod cais wedi dderbyn i ad-leoli bin halen i'w symud rhwng Parciau Gleision a Mur Moch. Adroddwyd ymhellach byddai ei ad-leoli i'r safle yma yn golygu ei fod yn gwasanaethu mwy o dai.

**Penderfynwyd:** Cytuno i gysylltu a Chyngor Gwynedd I wneud cais am ad-leoli'r bin halen yn unol a'r cais

**1564. I sefydlu trefniadau ar gyfer archwilio biniau halen (Cyng Berwyn Parry Jones)**

Adroddwyd fod hyn yn gyfle i wirio ac i sicrhau fod y biniau halen cyfredol yn y lleoliadau sydd mwyaf addas.

**Penderfynwyd:** Y Clerc i rannu rhestr o finiau halen a'r aelodau wirio ei bod yn y llefydd sydd mwyaf addas ac hefyd eu cyflwr.

**1565. I dderbyn diweddariad gan y Pwyllgor Hamdden a Mwynderau (Cyng Avril Jones)**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Avril Jones, Cadeirydd y Pwyllgor nad oedd y pwyllgor wedi cyfarfod ond ymysg y gwaith sydd yn mynd yn ei flaen mae:

- Arwyddion newydd ar gyfer Llanrug a Cwm y Glo wedi archebu ond ni ellir rhoi amserlen o pa bryd caiff eu gosod oherwydd tydi Cyngor Gwynedd ddim ond yn eu archebu mewn bylc.
- Wedi cyfarfod a cwmni Blachere pa goleuadau Nadolig – angen cyfarfod a cwmni arall i holi am brisiau a awgrymiadau. Wedi derbyn rhestr o'r polion sydd yn addas oddiwrth Cyngor Gwynedd.
- Wedi cysylltu a cwmni digidol awgrymir peidio symud ymlaen a map digidol oherwydd mae digon a apiau cyffelyb o gwmpas
- Pris am adnewyddu cysgodfa bws Cwm y Glo wedi dderbyn – disgwyl i'r gwaith gychwyn.
- Torri llwybrau cyhoeddus – nodwyd fod y gost i'r cyngor am 2025/2026 yn £2,365 ac mai dim ond £368 ydi ad0daliad Cyngor Gwynedd. Mae'r clerc yn ceisio trefnu cyfarfod gyda'r swyddog i drafod hyn. Dim dyddiad wedi benderfynu eto.

**Penderfynwyd**: Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1566. I dderbyn diweddariad gan Bwyllgor y Fynwent (Cyng Philip Roberts)**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Philip Roberts, Cadeirydd y Pwyllgor fel a ganlyn

Lon i'r Eglwys a'r Fynwent : yn dilyn cwynion a rhannwyd gan y Cyngor Cymuned gyda Chyngor Gwynedd maent wedi datgan bod gwaith yn cael ei gynllunio ar gyfer y ffordd.

Yn dilyn derbyn cwyn anarferol am bridd wedi'i gadael ar fedd cyfagos yn ystod paratoadau am angladd bydd yr is-bwyllgor, yn ei chyfarfod nesaf, yn ystyried addasu rheolau'r fel hyn : "Na ddylid wrth dyllu bedd, rhoi'r pridd yn agos at feddi cyfagos, ond i'w gludo i fan sydd allan o'r ffordd"

Cofnod o ymchwilio ym mis Ionawr am y Fynwent ar safle we'r Cyngor : 204 (ymchwil)-Data 99, Map 105. Nifer o ymchwilwyr unigryw :10.
Bwriadu cynnal ymweliad safle yn y fynwent yn ystod mis Mawrth i wirio cydymffurfio gan ymgymerwyr, seiri maen ag eraill gyda chofnodi gwaith cynnal a chadw ar gofebion.

**Penderfynwyd**: Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1567. Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'.**
**https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search**

Dim

**1568. Lwfansau ar gyfer roliau uwch y cyngor (Clerc)**

Ar gyfer yr eitem yma, cymerwyd y Gadair gan Y Cynghorydd Cemlyn Jones

Yn dilyn adroddiad gan y Clerc ar lwfansau disgresiwn ar gyfer aelodau o'r cyngor,

Ar hyn o bryd mae lwfansau'r cyngor fel a ganlyn

| | |
|---|---|
| Aelod o'r cyngor | £156 |
| Offer, deunydd swyddfa | £ 52 |
| Lwfans gofal (cyllideb) | £500 |

Mae'r taliadau uchod yn fandadol ac nid oes gan y cyngor ddewis i'w talu (oni bai fod yr Aelod yn cadarnhau yn ysgrifenedig nad yw eisiau eu derbyn)

Yn ychwanegol i hyn mae lwfansau disgresiwn gan y cyngor i dalu'r canlynol ac mae'r lwfansau yma yn daladwy o ystyried y gwaith a cyfrifoldeb ychwanegol sydd yn dod o'r roliau yma

| | |
|---|---|
| Lwfans Cadeirydd | £104 |
| Lwfans Is-gadeirydd | £ 52 |
| Lwfans Uwch-Aelod | £52 |
| Lwfans presenoldeb | Dim |
| Lwfans Colled ariannol | Dim |

Teithio a Chynhaliaeth – Fel cyfraddau Awdurdod Lleol

Tydi'r Panel (sydd Bellach wedi ddiddymu a cyfrifoldebau yn y broses o'i drosglwyddo i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru), ddim wedi codi y lwfansau mandadol ond mae yn rhoi arweiniad ar y taliadau dewisol. Mae'n ddiddorol nad ydi'r panel wedi codi'r taliadau mandadol ond wedi rhoi y pwysau ar daliadau dewisol, sydd yn rhoi lle i'r cyngor gydnabod faint o waith ychwanegol mae'r aelodau yma yn ei wneud ac yn adlewyrchu pa mor brysur a gweithgar ydi'r cyngor. Ar gyfer Cyngor Llanrug sydd a nifer o etholwyr rhwng 1,000 a 4,999, mae fel a ganlyn

Uwch ròl – dim swm penodol
Lwfans Cadeirydd – hyd at £1,500
Lwfans Is-gadeirydd – hyd at £500
Lwfans mynychu – Dewisol
Colled Ariannol – Dewisol
Teithio a Chynhaliaeth – Dewisol

Yn seiliedig ar y ffigyrau o'r taliad presennol mae'r cyfanswm presennol y gost i'r cyngor ar gyfer 2025 / 2026 fel a ganlyn

| | |
|---|---|
| Lwfans Aelod o'r Cyngor | £1898.00 |
| Lwfans Offer | £633.00 |
| Lwfans Cadeirydd | £104.00 |
| Lwfans Is-gadeirydd | £ 52.00 |
| Uwch Ròl 5 x £52 | £260.00 |
| Cyfanswm | £2947.00 |

Mae hyn allan o gyllideb a glustnodwyd ar gyfer 2025/2026 o £3200 sydd yn golygu tanwariant o £253.00. Rhaid cofio ein bod gyda un sedd wag a dwy sedd wedi llenwi yn ystod y flwyddyn.

Argymhellir yn seiliedig ar y ffigyrau uchod i barhau gyda dim lwfans ar gyfer mynychu a colled ariannol ac edrych ar daliadau ar gyfer y Cadeirydd, Is Gadeirydd ac Uwch Ròl.

Fe ddylai'r taliadau adlewyrchu yr holl waith ychwanegol sydd yn cael eu ymgymryd gan y roliau yma, felly awgrymaf y canlynol ar gyfer 2025/2026 ac ail edrych ar gyfer 2026/2027

| | |
|---|---|
| Codi lwfans y Cadeirydd o | £104 i £200 |
| Codi lwfans Is-gadeirydd o | £52 i £100 |
| Codi lwfans Uwch Ròl o | £52 i £75 |

Byddai hyn yn adlewyrch cynnydd yn y gost ar gyfer 2025/2026 o £2947 i £3,206,

Mae hefyd yn bwysig fod amgylchiadau personol ddim yn dod fewn i hyn ac ei ystyried fel mater i ddi-golledu rhywun efallai fyddai ddim yn fodlon cymryd un o'r roliau yma oherwydd pwysau ariannol yn y dyfodol. Fel unigolyn mae gan pob aelod y dewis o wrthod y taliad.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad. Roedd pawb yn unfrydol o blaid y newid ac yn gwerthfawrogi yr holl waith sydd yn cael ei wneud gan yr aelodau yn y roliau yma.

Daeth y cyfarfod i ben am 19:55

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: